# Partneriaeth
# Tyfu Canolbarth Cymru / Growing Mid Wales Partnership

**Dydd Iau 16 Medi 2021**
**Thursday 16 September 2021**
3.00 pm
Cyfarfod Rhith
Virtual Meeting

**Yn bresennol:-**
Y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion (Cadeirydd) **(EAG)**
Y Cynghorydd Rosemarie Harris, Arweinydd Cyngor Sir Powys (Is-gadeirydd) **(RH)**
Aggie Caesar-Homden, Rheolwr Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol **(ACH)**
Angharad Massow **(AM)**
Ann Elias, Cyngor Sir Ceredigion **(AE)**
Ann Watkin, Llywodraeth Cymru **(AW)**
Arwyn Davies, Cyngor Sir Ceredigion **(AD)**
Arwyn Watkins OBE, Cambrian Training **(ArW)**
Carwyn Jones-Evans, Cyngor Sir Ceredigion **(CJE)**
Cathy Martin, Swyddfa Rheoli Portffolio **(CM)**
Claire Miles, Cyngor Sir Ceredigion **(CM)**
Y Cynghorydd Dafydd Edwards, Cyngor Sir Ceredigion **(Cyng. DE)**
Y Cynghorydd Iain McIntosh, Cyngor Sir Powys **(Cyng.IM)**
Y Cynghorydd Myfanwy Alexander, Cyngor Sir Powys **(Cyng.MA)**
Y Cynghorydd Rhodri Evans, Cyngor Sir Ceredigion **(Cyng.RE)**
Diane Reynolds, Cyngor Sir Powys **(DR)**
Dr. Caroline Turner, Prif Weithredwr, Cyngor Sir Powys **(CT)**
Dr. Rhodri Llwyd Morgan, Prifysgol Aberystwyth **(RLIM)**
Eifion Evans, Cyngor Sir Ceredigion **(EE)**
Emma Wilde, Siambr Fasnach Canolbarth Cymru **(EM)**
Fiona Stewart, Grŵp Strategaeth Economaidd **(ES)**
Gareth Jones, Cyngor Sir Powys **(GJ)**
Gabriella Tedaldi, Cyngor Sir Ceredigion **(GT)**
Gavin Bown, CNC **(GB)**
Glenn Bowen, Canolfan Cydweithredol Cymru **(GIB)**
Gwilym Jones, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant **(GJ)**
Kelly Fountain, Grŵp Colegau NPTC **(KF)**
Lowri Gwilym **(LG)**
Marie Evans, Cyngor Sir Ceredigion **(ME)**
Nick Venti, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys **(NV)**
Nigel Brinn, Cyngor Sir Powys **(NB)**
Peter James, Llywodraeth Cymru **(PJ)**
Peter Skitt, Cyd-bwyllgor Iechyd Canolbarth Cymru **(PS)**

Rebecca Rees, Llywodraeth Cymru **(RR)**
Stella Owen, NFU **(SO)**
Stacey-Jayne Oakham, Cyngor Sir Ceredigion **(SJO)**
Val Hawkins, Twristiaeth Canolbarth Cymru **(VH)**
Vanessa Cashmore, Coleg Sir Gâr **(VC)**

| | |
|---|---|
| **1.** | **Ymddiheuriadau am absenoldeb**<br>Derbyniwyd ymddiheuriadau gan:-<br>Mark Dacey, Grŵp Colegau NPTC<br>Y Cynghorydd Phyl Davies, Cyngor Sir Powys<br>Peter Howells, NFU<br>Geraint Rees, Cyngor Sir Powys<br>Y Cynghorydd Gareth Thomas, Cyngor Gwynedd<br>Rhodri Griffiths, Llywodraeth Cymru<br>Steve Hughson, CAFC<br>Steffan Roberts, Llywodraeth Cymru |
| **2.** | **Derbyn Cofnodion cyfarfod blaenorol Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru a gynhaliwyd ar 24 Mai 2021**<br>Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 24 Mai 2021 yn gofnod cywir. |
| **3.** | **Bargen Twf Canolbarth Cymru – Diweddariad Cynnydd**<br>Rhoddodd Carwyn Jones-Evans ddiweddariad ar y Fargen Twf. Bydd Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru'n ystyried yr Achos Busnes Portffolio ar 21 Medi gydag argymhelliad bod Cabinetau Ceredigion a Phowys yn ei gymeradwyo i'w gyflwyno i Lywodraethau Cymru a'r DU. Mae'r Portffolio cyfredol yn cynnwys rhestr fer o 2 Raglen a 9 Prosiect a fyddai'n cael eu hystyried ar gyfer datblygiad pellach. Dywedodd CJE nad yw cymeradwyaeth gan y Bwrdd ar y cam hwn yn sicrhau cyllid ar gyfer y set gychwynnol hon o raglenni/prosiectau, ond roedd yn arwydd y byddai'r opsiynau hyn yn cael eu datblygu ymhellach ar gost/risg y cynigwyr ac y byddai Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru yn adolygu manylion y cynigion fel rhan o ddatblygu achos busnes. Byddai'r Swyddfa Rheoli Portffolio dan arweiniad Cathy Martin yn rheoli'r fargen ar ran y rhanbarth.<br>Cytunwyd i ddosbarthu dolen i bapurau Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru ar gyfer 21 Medi i aelodau'r Bartneriaeth. |
| **4.** | **Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol – Diweddariad Cynnydd**<br>Rhoddodd Aggie Caesar-Homden, a oedd wedi bod yn ei swydd fel rheolwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ers 8 Mehefin, ddiweddariad ar waith y Bartneriaeth. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Bwrdd y Bartneriaeth ar 12 Mai 2021 a phenodwyd Adrian Watson, Pennaeth yr Ysgol, y Ganolfan Dechnoleg Amgen, fel Cadeirydd Dros Dro Bwrdd y Bartneriaeth. Byddai gofyn i'r Bwrdd gadarnhau ei benodiad nes Mai 2022. Gofynnodd MA am gyrsiau galwedigaethol Cymraeg a chadarnhaodd ACH bod darparu cyrsiau Cymraeg yn flaenoriaeth. Awgrymwyd a chytunwyd y dylid gofyn i gynrychiolydd o'r Coleg Cymraeg ymuno â'r Bwrdd. |

| | |
|---|---|
| 5. | **Diweddariadau Busnes**<br>i. <u>Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio</u><br><br>Rhoddodd Gareth Jones ddiweddariad ar y Rhaglen Trawsnewid Trefi ac ar y prosiectau strategol sy'n cael eu rhoi ar waith. Dywedodd fod nifer o brosiectau o dan Gronfa Fuddsoddi Eiddo Canol Trefi heb eu cwblhau yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf oherwydd oedi yn sgil Covid. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ganiatáu i'r cyllid gael ei dynnu i lawr cyn belled â bod y gwariant yn cael ei gwblhau yn y flwyddyn ariannol hon.<br><br>ii. <u>Adroddiad y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol</u><br>Adroddodd Claire Mills ar gyllid datblygu rhanbarthol y dyfodol a'r risgiau a oedd yn gysylltiedig â'r ffaith fod Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd yn dod i ben. Byddai Cronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU yn dechrau ym mlwyddyn ariannol 2022-23. Ychydig o wybodaeth oedd ar gael am sut y byddai'r gronfa'n gweithredu, er y rhagwelwyd y byddai cyllid o'r Gronfa'n cael ei ddarparu drwy awdurdodau lleol ar lefel leol. Roedd gohebiaeth newydd ddod gan yr Adran Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn hysbysu ynghylch sefydlu tasglu llywodraeth leol newydd a fyddai'n cynnwys cynrychiolaeth o'r Canolbarth.<br><br>Roedd y tîm yn gweithio gyda swyddogion o Dîm Buddsoddi Rhanbarthol Llywodraeth Cymru i nodi blaenoriaethau ar gyfer cyllid a deall pa weithgarwch y byddai Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio eu cyllidebau is arnynt a'r effaith bosibl ar wasanaethau allweddol. Cynigiodd y tîm nifer o gamau gweithredu i helpu i gynnal gwaddol cyllid yr UE yn y rhanbarth a helpu awdurdodau lleol a sefydliadau partner i barhau i gydweithio'n strategol er mwyn nodi blaenoriaethau a rennir yn barod ar gyfer cyfleoedd a fydd yn codi o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.<br><br>Nododd y Cynghorydd Harris nad oedd Powys wedi elwa ar gronfeydd strwythurol Ewropeaidd o'r blaen ond y byddai'n elwa ar y cyllid codi'r gwastad newydd.<br><br>Croesawodd Glenn Bowen o NRA drafodaeth ar yr heriau posibl gan fod yna risg na fyddai cyllid ar gael ac o golli prosiectau a dilyniant.<br><br>iii. <u>Gweithgor Cysylltedd a Seilwaith</u><br><br>Rhoddodd Ann Elias ddiweddariad ar faterion trafnidiaeth strategol sy'n effeithio ar y rhanbarth a gwaith Bwrdd TraCC. Roedd yr adroddiad yn cynnwys diweddariadau ar bolisi trafnidiaeth ac ar ddarparu prosiectau seilwaith strategol ac yn nodi'r cyfleoedd trafnidiaeth a seilwaith ar gyfer y rhanbarth.<br><br>Dywedodd Nigel Brinn ei fod wedi bod yn trafod â Chyngor Swydd Amwythig am Fargen Twf bosibl i'r Gororau ond nad oedd eglurder eto ynghylch beth fyddai hynny'n ei olygu i Fargen Twf Canolbarth Cymru. |
| 6. | **Diweddariad Llywodraeth(au)** |

| | |
|---|---|
| | Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol Llywodraeth Cymru a materion rhanbarthol cysylltiedig<br>Rhoddodd Ann Watkins ddiweddariad ar Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol Llywodraeth Cymru a oedd yn nodi set gyffredin o flaenoriaethau ar draws y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector a fframwaith cyffredin ar gyfer darparu. Y dull oedd<br>▪ Cyd-gynhyrchu gweledigaeth gyffredin a set gyffredin o flaenoriaethau datblygu economaidd - blaenoriaethau lefel uchel y gall yr holl randdeiliaid eu cefnogi a'u defnyddio i ddylanwadu ar strategaethau a rhaglenni cenedlaethol ehangach<br>▪ Cydgynllunio set gyffredin o egwyddorion a ffyrdd o weithio sy'n cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – gan gydnabod bod sut rydym yn darparu mor bwysig a beth rydym ni'n ei ddarparu<br>▪ Sefydlu'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol fel cyfrwng i hyrwyddo datblygiad economaidd rhanbarthol cydweithredol, gydag eglurder ynghylch anghenion a chyfleoedd rhanbarth y Canolbarth waeth beth fo'r ffynonellau cyllid<br>▪ Mae cysoni'r Fframwaith â chynlluniau cyfredol sy'n sail i Fargen Twf Canolbarth Cymru - *Gweledigaeth ar gyfer Tyfu Canolbarth Cymru (Mai 2020)* yn darparu'r sylfeini ar gyfer y Fframwaith gyda chorff helaeth o waith i'w gael, wedi'i gefnogi gan ystod eang o randdeiliaid drwy Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru<br>▪ Comisiynu Rhwydwaith Cydgynhyrchu Cymru i gefnogi gwaith ymgysylltu a chyfranogi<br>▪ Gweithio'n agos â'r awdurdodau lleol fel partneriaid allweddol i ddatblygu dogfen y Fframwaith Economaidd Rhanbarthol.<br><br>Dylid rhannu'r drafft terfynol gyda phartneriaid awdurdodau lleol yn yr hydref a'i gyhoeddi.<br><br>Roedd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn hapus i weld bod blaenoriaethau economaidd y Fframwaith yn cyd-fynd â blaenoriaethau Bargen Twf Canolbarth Cymru. Cadarnhaodd AW fod Llywodraeth Cymru'n ystyriol iawn o faterion trawsffiniol gyda'r Canolbarth yn ffinio â chymaint o ardaloedd. |
| **7.** | **Diweddariadau Rhanbarthol Ehangach**<br><br>Cafwyd cyflwyniad gan Val Hawkins o Dwristiaeth Canolbarth Cymru. Esboniodd eu bod yn darparu cysylltiad rhwng partneriaid yn y sectorau cyhoeddus a phreifat ac wedi cefnogi busnesau drwy'r pandemig. Cafwyd gostyngiad o 64.52% yn niferoedd ymwelwyr rhwng 2019 a 2020 oherwydd y pandemig a gostyngiad o 59.6% mewn refeniw.<br><br>Roedd Twristiaeth Canolbarth Cymru wedi bod yn hyrwyddo'r Canolbarth fel cyrchfan "rhaid ymweld â hi" gan gyhoeddi dros 2,000 o dudalennau o gynnwys ar-lein a gafodd eu gweld 10.3 miliwn o weithiau hyd at ddiwedd mis Awst. Eu nod oedd hyrwyddo'r Canolbarth fel cyrchfan drwy gydol y flwyddyn a thargedu demograffeg iau. Amcangyfrifodd VH na fyddai'r farchnad yn adfer nes 2025. Cadarnhaodd fod Twristiaeth Canolbarth Cymru'n ystyried digwyddiadau yn rhan bwysig o dwristiaeth yn y rhanbarth. |

| | |
|---|---|
| | |
| **8.** | **Ymgynghoriad – Effeithiau economaidd a diwylliannol polisi masnach ac amgylcheddol ar ffermydd teuluol yng Nghymru**<br>Ymateb rhanbarthol drafft i'w ystyried<br>Roedd CM wedi paratoi ymateb ar gyfer y Pwyllgor Materion Gwledig. Byddai ymateb Powys yn cael ei gyflwyno cyn y dyddiad cau. |
| **9.** | **Gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru**<br>Derbyniwyd gwahoddiad gan Huw Irranca-Davies, Cadeirydd Fforwm Strategol Buddsoddi Gwledig Cymru, i'r Bartneriaeth fod yn aelod o'r Fforwm. Nodwyd y byddai'r ddau Arweinydd yn mynychu. |
| **10.** | **Unrhyw Fater Arall**<br>Dim |
| **11.** | **Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**<br>15 Tachwedd 2021 |